# SUT DDYLAI TRAETHAWD EDRYCH?

ñDywedwch wrthynt yr hyn rydych yn mynd iôw ddweud wrthynt, ei ddweud, ac yna dweud wrthynt yr hyn a ddywedasoch wrthynt.ò

Bydd eich darllenydd eisiau gwybod i ble maen nhw'n mynd, a sut mae'r syniadau'n cyd-blethu.

Mae'n gweithio o'r cyffredinol i'r penodol

O'r tu allan i'r tu mewn

O'r mawr at y bach

Defnyddiwch baragraffau i roi fframwaith i'ch gwaith

Defnyddiwch frawddegau am y pwnc i agor eich paragraffau

Rheolau'r fawd yw'r rhain - ar gyfer arweiniad yn hytrach nag i lynu atynt yn llym - mae'n rhaid i chi ddewis sut y byddwch yn defnyddio eich testun i gyflwyno eich dadl.

| | |
|---|---|
| **Rhagarweiniad**<br>(6-20%) | Dechreuwch gyda brawddeg gyffredinol ï gosodwch eich dadl mewn darlun ehangach<br>Dehongli'r cwestiwn - a pham y gallai'r dull hwn fod yn ddefnyddiol<br>Nodwch eich dadl ï datganiad oôch gosodiad<br>Diffiniwch / dosbarthwch gysyniadau allweddol<br>Mae'n gosod map oôch ateb<br>Mae'n cymell y darllenydd i ddarllen ymlaen |
| **Corff**<br>( ~ 80%) | Mae'n cyfiawnhau ac yn datblygu eich dadl<br>Beth yw eich 'llinell stori'? |

| | |
|---|---|
| | ▪ Ystyriwch ar bob adeg: Pa mor argyhoeddiadol yw hyn - yn ddeallusol ac yn rhesymegol<br>▪ Meddyliwch: Perthnasedd, pwysigrwydd, eglurder ï byddwch yn ddethol |
| **Casgliad**<br>(8 - 15%) | Mae'n cydglymu'r rhagymadrodd a'r corff<br>Mae'n crynhoi'r pwynt allweddol ac yn tynnu prif bwyntiau eich dadl ynghyd.<br>Mae'n cynnig ateb i'ch cwestiwn.<br><br>Gall gynnwys materion damcaniaethol neu gymhwysol ï presennol neu yn y dyfodol<br><br>Ni ddylai gynnwys pwyntiau allweddol newydd. |

Gwasanaethau Anabledd Prifysgol Bangor, Mai 2018.